# Cynllun Gweithredu Llwybr Rhywogaethau Estron Prydain Fawr: Garddwriaeth

## Cefndir cynllunio gweithredu

Mae lleihau'r risg a achosir gan lwybrau cyflwyno a lledaenu yn ffordd allweddol o fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr yn galw am ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau, sydd hefyd yn ofyniad o dan Reoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE a gedwir.

Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn un o gyfres o gynlluniau a fwriedir i fynd i'r afael â llwybrau cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron ym Mhrydain Fawr. Mae'r cynllun yn amlinellu'r polisi a dulliau gweithredu cyffredinol yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni gan y diwydiant garddwriaeth, y llywodraeth a defnyddwyr mewn perthynas â'r mater hwn.

## Cwmpas

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at y llwybr garddwriaeth, sy'n cwmpasu rhywogaethau planhigion estron goresgynnol (gan gynnwys coed) ym mhob amgylchedd: daearol, dŵr croyw a morol. Mae'n cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r sector garddwriaeth yn ogystal â garddwyr a defnyddwyr terfynol eraill. Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hefyd yn ymdrin â rhywogaethau goresgynnol sy'n teithio ar blanhigion (neu ar/mewn cyfryngau megis potiau neu bridd sy'n gysylltiedig â'r planhigion). Ni fydd y Cynllun Gweithredu Llwybr yn cynnwys rhywogaethau sydd eisoes yn dod o dan y gyfundrefn Iechyd Planhigion ond bydd yn cynnwys rhywogaethau nad ydynt yn niweidiol i blanhigion fel morgrug a llyngyr lledog. Mae micro-organebau y tu allan i'r cwmpas ond mae macro-ffyngau sy'n teithio ar blanhigion o fewn y cwmpas lle maent y tu allan i gwmpas Iechyd Planhigion. Cwmpas daearyddol y Cynllun Gweithredu Llwybr yw Prydain Fawr ond bydd hefyd yn cyfeirio lle bo'n berthnasol at Ogledd Iwerddon ac aelodau eraill o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

Paratowyd y cynllun hwn gan weithgor (Gweithgor Cynllun Gweithredu Llwybr Garddwriaeth Prydain Fawr) a oedd yn adrodd i Fwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron y DU (gweler Atodiad 1 am aelodaeth). Bu is-grŵp ar rywogaethau garddwriaethol sy'n teithio ar blanhigion yn goruchwylio'r rhannau hyn o'r Cynllun Gweithredu Llwybr.

## Sail resymegol

Ar hyn o bryd, mae tua 2,000 o rywogaethau estron wedi ymsefydlu yn y gwyllt ym Mhrydain Fawr ac mae 12 rhywogaeth ychwanegol yn ymsefydlu bob blwyddyn. Mae tua 70% o'r rhywogaethau hyn yn blanhigion ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini wedi'u cyflwyno drwy'r fasnach arddwriaeth. Yn ogystal, mae nifer o rywogaethau wedi'u cyflwyno fel teithwyr sy'n gysylltiedig â garddwriaeth. Yn ffodus, tra bo'r fasnach arddwriaeth yn gyfrifol am gyflwyno

mwy o rywogaethau nag unrhyw lwybr arall, nid yw’r rhan fwyaf o’r rhywogaethau hyn (yn enwedig planhigion ar y tir) yn mynd ymlaen i achosi problemau inni. Er gwaethaf hyn, o’r tua 200 o rywogaethau estron sydd wedi cael effeithiau negyddol hysbys, mae 40% yn debygol o fod wedi’u cyflwyno gan y llwybr hwn. Mae'n hanfodol felly ein bod yn mynd i'r afael â'r llwybr garddwriaeth drwy ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu llwybr garddwriaethol.

Rydym yn rhagweld y bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu ystod a helaethrwydd llawer o'r planhigion addurniadol goresgynnol sy'n niweidio ein hamgylchedd ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd rhai planhigion addurnol sydd anfalaen ar hyn o bryd mewn gerddi a phyllau yn dod yn oresgynnol oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol felly ein bod yn rheoli'r risg y mae'r llwybr hwn yn ei chynrychioli'n effeithiol.

Canfu arolwg o agweddau’r cyhoedd yn 2018 fod dros 80% o’r cyhoedd yn gyffredinol yn meddu ar ardd a bod gan un o bob chwech bwll/nodwedd ddŵr. Daeth planhigion yn bennaf o'r canlynol: canolfannau garddio, siopau DIY, archfarchnadoedd a meithrinfeydd/cyfeillion. Cyfaddefodd ychydig o dan 1% (sy'n cynrychioli nifer fawr o bobl) eu bod yn cael gwared ar blanhigion yn y gwyllt a dim ond 7% oedd wedi clywed am ymgyrch Mynd at Wraidd y Mater.[1] Y prif ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan arddwyr oedd labeli planhigion, pecynnau hadau, ffrindiau, staff y ganolfan arddio a'r rhyngrwyd (mewn trefn ddisgynnol).

Ceir codau ymarfer garddwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr (2005, diweddarwyd 2011) ac un ar wahân ar gyfer yr Alban (2005) a chod Ewropeaidd a ddatblygwyd o dan Gonfensiwn Bern, ond ymddengys mai cyfyngedig fu effaith y rhain hyd yma. Mae’r maes hwn hefyd wedi’i gwmpasu gan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu gwaharddiad cyffredinol ar ryddhau’r rhan fwyaf o rywogaethau estron o anifeiliaid ac yn rhestru 55 o rywogaethau o blanhigion na chânt eu plannu neu achosi iddynt ymledu yn y gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Mae Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â throseddau, cosbau, gorfodi a thrwyddedu er mwyn gweithredu rhai o ofynion Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a gedwir. Mae’r gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru a Lloegr a’r ardal forol alltraeth, ac o ran unrhyw ddarpariaeth sy’n gymwys mewn perthynas â rheolaethau ar fewnforion i mewn ac allforion o’r Deyrnas Unedig, ac unrhyw ddarpariaeth sy’n ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth o’r fath, i’r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cael ei diwygio er mwyn darparu ar gyfer mesurau gorfodi a brys o dan y rheoliad a gedwir.
Ar hyn o bryd, mae 36 o rywogaethau planhigion wedi’u rhestru fel rhywogaethau o bryder arbennig sy’n cael eu cwmpasu gan waharddiadau’r rheoliad a gedwir ac un rhywogaeth sy'n teithio (llyngyren ledog Seland Newydd). Yn yr Alban, mae gwaharddiad cyffredinol ar blannu planhigion

[1] https://www.nonnativespecies.org/assets/Document-repository/2018_Survey_of_Attitudes_Knowledge_and_Behaviour_in_Relation_to_Non-native_Species-7.pdf

estron yn y gwyllt a 'rhestr wen' o goed a blodau gwyllt estron y gellir eu plannu yn y gwyllt.

Ceir rhagor o fanylion am y fframwaith deddfwriaethol ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth yn unig yn ddigon i reoli a lleihau’r risg sy’n gysylltiedig â chyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'n gofyn am gydweithio a chydweithrediad gan bawb dan sylw: mae pob sector yn rhan o'r ateb ac yn chwarae rhan bwysig mewn atal rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r cynllun hwn yn nodi camau gweithredu ychwanegol i helpu i leihau'r risg a achosir gan rywogaethau estron sy'n gysylltiedig â'r fasnach arddwriaeth.

Ei brif allbwn fu cytuno ar gyfres o fesurau i warchod yr amgylchedd rhag cyflwyno planhigion a theithwyr cysylltiedig sydd, neu a allai ddod, yn oresgynnol. Amlinellir y camau hyn isod, a dyma brif gorff y cynllun gweithredu.

## Nodau ac amcanion

Nod cyffredinol y Cynllun Gweithredu Llwybr yw lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu i'r gwyllt rywogaethau planhigion estron goresgynnol a rhywogaethau estron goresgynnol sy'n teithio ar blanhigion (neu ar gyfryngau megis pridd sy'n gysylltiedig â'r planhigion).

Amcanion penodol yw:

*Planhigion goresgynnol*

1. Sicrhau nad yw rhywogaethau gwaharddedig yn cael eu gwerthu/cyfnewid ar bob llwybr, gan gynnwys ar-lein.

2. Nodi a dileu'r rhywogaethau neu amrywogaethau mwyaf goresgynnol o blanhigion o'r fasnach.

3. Sicrhau bod pob planhigyn goresgynnol neu a allai fod yn oresgynnol wedi'i labelu'n gywir gan ddefnyddio enwau rhywogaethau ac amrywogaethau derbyniol/safonol.

4. Codi ymwybyddiaeth o fater planhigion estron goresgynnol ymhlith cynulleidfaoedd targed allweddol yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys mewnforwyr, manwerthwyr a thyfwyr.

5. Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol ymhlith garddwyr, perchnogion pyllau ac acwaria er mwyn lleihau'r risg y bydd planhigion yn mynd i'r gwyllt.

*Teithwyr garddwriaethol*

6. Lleihau'r risg o halogi planhigion garddwriaeth a chynhyrchion garddwriaethol cysylltiedig sy'n cyrraedd Prydain Fawr.

7. Sicrhau integreiddio di-dor rhwng y gyfundrefn iechyd planhigion a'r Arolygiaeth Rhywogaethau Estron beilot – gan gynnwys rhannu hysbysiadau canfod ar gyfer plâu iechyd nad ydynt yn rhai planhigion.

8. Sicrhau bod mewnforwyr, meithrinfeydd a manwerthwyr yn gwybod beth i'w wneud os canfyddir stoc sydd wedi'i halogi â rhywogaethau goresgynnol.

9. Codi ymwybyddiaeth ymhlith garddwyr a chynulleidfaoedd targed allweddol eraill mewn perthynas â theithwyr.

**Camau**

*Cam gweithredu 1*
Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol, gan weithio gyda'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau fel y bo'n briodol, i fynd ati'n rhagweithiol i geisio canfod gwerthiannau rhywogaethau gwaharddedig (gan gynnwys ar-lein), ymateb i adroddiadau gan gyflenwyr planhigion eraill, a chymryd camau gorfodi addas.

*Cam gweithredu 2*
Bydd Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a'r Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth y sector (manwerthwyr a chynhyrchwyr yn bennaf) am rywogaethau rhestredig, yn ogystal â darparu canllawiau ar blannu a gwaredu rhywogaethau goresgynnol heb eu rhestru.

*Cam gweithredu 3*
Bydd y llywodraeth yn cynnig rhagor o rywogaethau i'w rhestru fel rhywogaethau o bryder arbennig. Bydd yr holl gynigion yn cael eu blaenoriaethu cyn eu cyflwyno ar gyfer asesiad risg ac ymgynghoriad a chytundeb gweinidogol terfynol.

*Cam gweithredu 4*
Defra, Llywodraethau Cymru a Llywodraeth yr Alban i weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid perthnasol eraill i nodi planhigion sydd â'r potensial i ddod yn oresgynnol, gan gynnwys y rhai y mae ein hinsawdd newidiol yn effeithio arnynt, a sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn ddigonol i ddiogelu ein hamgylchedd rhagddynt. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth sganio'r gorwel, y dylid ei addasu i roi gwell ystyriaeth i rywogaethau sydd eisoes wedi ymsefydlu ym Mhrydain Fawr.

> Cam gweithredu 4A
> Y diwydiant garddwriaeth, cyrff masnach, y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i hwyluso casglu tystiolaeth o ymddygiad goresgynnol planhigion addurnol, defnyddio'r wybodaeth hon i gynghori defnyddwyr, a rhannu hyn â chyrff y llywodraeth.
>
> Cam gweithredu 4B
> Mecanwaith adrodd i'w roi ar waith ar gyfer adrodd am blanhigion addurnol sy'n arddangos ymddygiad goresgynnol (e.e. trwy Plant Alert).

*Cam gweithredu 5*
Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol i weithio gyda'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i ddatblygu rhestr o enwau anghywir a ddefnyddir yn gyffredin ar blanhigion, ac a ddefnyddir yn ddamweiniol neu'n fwriadol er

mwyn osgoi rheoleiddio, y gellid ei defnyddio i sgrinio mewnforion i mewn a symudiadau o fewn Prydain Fawr.

> Cam gweithredu 5a
> Pawb i ddefnyddio cronfa ddata Kew Plants of the World fel y prif awdurdod tacsonomaidd (sylwch fod ffynonellau eraill, e.e. y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a Standard British Flora (Stace, 4ydd argraffiad) yn werthfawr a gallant ddefnyddio tacsonomeg wahanol).

*Cam gweithredu 6*
Defra, Llywodraethau Cymru a Llywodraeth yr Alban i ddatblygu cynigion ar gyfer system labelu (o eiriau a/neu symbolau) i rybuddio garddwyr y gallai rhai planhigion fod yn oresgynnol o dan rai amgylchiadau a chyngor ar eu gwaredu’n ddiogel.

*Cam gweithredu 7*
Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron a llywodraethau i gynnal a hyrwyddo ymgyrch *Mynd at Wraidd y Mater* a'i diweddaru yn ôl yr angen ac i hwyluso'r gwaith o ddosbarthu'r ‘llyfrynnau amgen’

*Cam gweithredu 8*
Y sector garddwriaeth a'r Rhwydwaith Planhigion i annog eu haelodau i gynorthwyo gyda chodi ymwybyddiaeth o blanhigion estron goresgynnol, gan gynnwys trwy hyrwyddo ymgyrch Mynd at Wraidd y Mater a'r llyfrynnau dewisiadau amgen.

*Cam gweithredu 9*
Y Gweithgor Hyfforddiant Rhywogaethau Estron i weithio gyda'r sector garddwriaeth sy'n gweithio a darparwyr hyfforddiant (e.e. BASIS) i nodi hyfforddiant allweddol ar gyfer mewnforwyr, manwerthwyr a thyfwyr.

*Cam gweithredu 10*
Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron i weithio gyda Porth Gwybodaeth Rhywogaethau Estron a'r Arolygiaeth Rhywogaethau Estron i nodi'r risgiau allweddol (rhywogaethau a nwyddau) sy'n gysylltiedig â theithwyr garddwriaethol - gan ddefnyddio rhestrau sganio'r gorwel presennol a data ar gipiadau.

*Cam gweithredu 11*
Arolygiaeth Rhywogaethau Estron, gan weithio gyda’r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, i fynd ati’n rhagweithiol i geisio canfod teithwyr estron goresgynnol ar ac mewn mewnforion sy’n ymwneud â garddwriaeth gan

ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar risg ac i gymryd camau rheoleiddio a gorfodi addas.

> *Cam gweithredu 11a*
> Cydweithwyr yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau ac Iechyd Planhigion i hwyluso canfod teithwyr trwy wneud y canlynol: i. gweithio gyda'r Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol i godi ymwybyddiaeth ymhlith arolygwyr yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau; ii. rhannu adroddiadau am blâu iechyd nad ydynt yn blanhigion perthnasol â’r Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol mewn modd amserol.

*Cam gweithredu 12*
Bydd y llywodraeth yn cynnig tacsonau teithwyr blaenoriaeth pellach i'w rhestru fel Rhywogaethau Estron Goresgynnol o Bryder Arbennig i sicrhau bod darpariaethau perthnasol deddfwriaeth rhywogaethau estron goresgynnol ar waith.

*Cam gweithredu 13*
Defra, Llywodraethau Cymru a Llywodraeth yr Alban i asesu bylchau mewn deddfwriaeth (e.e. pwerau ar y ffin) sy'n ymwneud â theithwyr garddwriaethol a cheisio llenwi'r rhain wrth i gyfleoedd deddfwriaethol godi.

*Cam gweithredu 14*
Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol a’r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau i godi ymwybyddiaeth o fewn y diwydiant fel ei fod yn gwybod beth i'w wneud os canfyddir bod llwyth wedi'i halogi â thacsonau teithwyr blaenoriaeth.

*Cam gweithredu 15*
Yr Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol, gan adeiladu ar fecanweithiau presennol, i sefydlu llwybr/mecanwaith adrodd i ddefnyddwyr a’r sector adrodd am rywogaethau perthnasol sy’n deithwyr.

*Cam gweithredu 16*
Plant Healthy i geisio cynnwys gofyniad ar deithwyr garddwriaethol pan fydd y Safon Rheoli Iechyd Planhigion yn cael ei diweddaru.

Cam gweithredu 17
Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (gyda'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol) i archwilio datblygiad canllawiau hawdd eu defnyddio i arddwyr ar sut i osgoi codi a lledaenu teithwyr a beth i'w wneud os byddwch yn dod o hyd

iddynt (gan gynnwys archwilio'r gorgyffwrdd ag ymgyrch *Peidiwch â Mentro* a redir gan Iechyd Planhigion).

Cam gweithredu 17a
Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu’r canllawiau presennol a datblygu canllawiau newydd ar lyngyr lledog yn ogystal â datblygu canllawiau newydd ar forgrug.

## Monitro a diweddaru

Bydd y gweithgor yn cael ei ailymgynnull o leiaf unwaith y flwyddyn i asesu cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu.

Er mwyn asesu’r cynnydd cyffredinol o ran cyflawni’r Cynllun Gweithredu Llwybr, bydd y grŵp yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol:

- Newidiadau yn lefel ymwybyddiaeth y rhai sy'n ymwneud â'r sector garddwriaeth fel yr aseswyd gan yr arolwg o agweddau'r cyhoedd.
- Nifer y busnesau sy'n gwerthu rhywogaethau gwaharddedig fel y'u mesurwyd gan yr Arolygiaeth Rhywogaethau Estron (a ffynonellau eraill lle bo'n berthnasol).
- Nifer yr halogion a ganfuwyd trwy'r Arolygiaeth Rhywogaethau Estron neu’r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau neu a adroddwyd gan y sector.
- Y defnydd o labelu (os caiff ei ddatblygu).
- Cyfran y rhywogaethau planhigion yn y fasnach sy'n cael eu hasesu am eu risg bosibl o ddod yn oresgynnol.

Yn y pen draw, dylai'r Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Garddwriaeth helpu i leihau nifer y planhigion a halogion garddwriaethol estron goresgynnol newydd sy'n sefydlu ac yn ymledu yn y gwyllt. Bydd dangosyddion lefel uchel, megis dangosydd B6 y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a dangosydd ‘gostyngiad’ Defra, yn cael eu hystyried i geisio asesu hyn; fodd bynnag, gall fod yn anodd canfod effaith benodol y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Garddwriaeth ar y lefel hon.

**Atodiad 1:** Aelodau'r gweithgor.

Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol ar weithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Garddwriaeth:

Asiantaeth yr Amgylchedd (cadeirydd)

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (ysgrifennydd)

Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol

Buglife

Cymdeithas y Fasnach Ddyfrol Addurniadol

Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol

Landscape Institute

Polisi Rhywogaethau Estron Goresgynnol Defra

Iechyd Planhigion Defra

Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau

Plantlife Scotland

Cymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain

Coed Cadw

Llywodraeth yr Alban

Llywodraeth Cymru

Tom Warren

Llywodraeth Gogledd Iwerddon

Cyfoeth Naturiol Cymru

Natural England

NatureScot (Treftadaeth Naturiol yr Alban gynt)

Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban

Gwyddoniaeth a Chyngor ar gyfer Amaethyddiaeth yr Alban

Gardd Fotaneg Frenhinol Caeredin

Prifysgol Coventry

Curadur Anrhydeddus (Planhigion), Cymdeithas Linneaidd Llundain

Aelodau gohebol:

DAERA – Gogledd Iwerddon